

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg Fai 2022.

Presennol- Mari E M Mathews Cadeirydd , Anna Brown, Neil Pringle Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Beth Thomas, Catherine Williams. Janet Charlton,
Datgan diddordeb. Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Mari E M Mathews yng nghofnod [2.2]
[Materion Cynllunio] a ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ebrill 2022

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Nodwyd y wybodaeth oddiwrth yr heddwes Peter Evans. Y clerch i gysylltu'n mhellach ynlgun a penodi SCHG ar gyfer y gymuned ac i wahodd Sgt Evans I gyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Dywedodd y clerch iddo gysylltu gyda ymgynhorwyr Matt Macdonald a'i fod yn disgwyl gair ganddynt ynglŷn ag ymweliad a'r safle. Y clerch i gysylltu mhellach gyda'r cwmni.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts bod y Gymdeithas Tai yn parhau i ddisgwyl am ganiatâd cynllunio.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Eglurodd y clerch nad oedd gwybodaeth pellach ynglŷn ag ymweliad i'r safle gan swyddog gorfodaeth y Parc Cenedlaethol

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Y clerch i gysylltu gyda Rob Jones I drefnu ymweliad a'r safle i geisio amcan bris ar gyfer creu maes parcio.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Eglurodd y Cyng E Roberts y byddai'r gwaith yn debygol o ddechrau ar y 29ain Orffennaf

[1.6] Dyn mewn Fan

Nodwyd bod y mater wedi ei ohirio hyd nes bydd cyfarfod gydag Edward Jones APCE ar gyfer trafod gwaith cynhaliad leol. Y clerch i gysylltu gyda Edward Jones I drefnu cyfarfod yn y dydd.

[1.7] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy

Nodwyd bod yr ynys yn berchen I Gyngor BS Conwy a bod trefniadau i glirio'r gwastraff

[1.8] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Nodwyd bod y gwelliannau wedi cychwyn.

[1.9] Holiadur Cymuned

Eglurodd y Cyng Mari E M Mathews bod yr ymateb o ddeutu 50% a'i bod yn obeithiol y bydd mwy yn cyrraedd mewn pryd, ar gyfer adroddiad i'r Cyngor

[2] Materion Sbwriel Maes Parcio Ffordd yr Orsaf

Penderfynwyd trafod y mater gydag Edward Jones

[2.1] Cyfarpar Chwaraeon Cae Llan

Dywedodd y Cyng E Roberts bod trafodaeth yn parhau

Y Brif Agenda

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Estyniad i gefn ac ochr y caffi presennol. Caffi Malden Betws-y-Coed.

[b] Caniatâd hysbysebion ar gyfer cyfnewid amryw o arwyddion i'r edrychiad ffrynt.

Gwesty Pont-y-Pair Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gynnig ond y dylai cyfnewid arwyddion [cais b] fod yn ddwyieithog.

Datganwyd pryder ynglŷn â'r trafferthion i geisio gwybodaeth ynglŷn â cheisiadau cynllunio ar safle APCE. Y clerc i gysylltu gyda Jonathan Cawley ynglŷn â'r mater.

[2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Ebrill 2022

[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn gwella yn dilyn y cyfnod y bu ar gau yn o ganlyniad cofid yn ystod 2021.

[2.4] Clwb Peldroed Betws-y-Coed

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Siân Godbert i geisio codi'r ffens tu ôl i'r goal wrth Ffordd yr Orsaf i atal rhag i'r bel daro ceir a phobl.

Gan nodi sylwadau pan i'r ffens gael ei gosod yn y lle cyntaf, penderfynwyd ystyried gosod giât fechan tu ôl i'r goal.

Mari E M Mathews, Cadeirydd